Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Llywodraeth yr Alban
Llywodraeth Cymru

Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

# PT42(Cymraeg) Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) a Gweithredwyr Llongau Fferi/Mordeithio ar gyfer Cludo Cŵn Cymorth Cydnabyddedig

## Adran 1: Gwybodaeth Gyffredinol

### Rhan 1 – Rhoi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar waith

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn gymwys i'r canlynol:

- cwmnïau cludiant sy'n cynnig gwasanaethau ar y môr i deithwyr lle mae'r porthladd glanio neu'r porthladd galw wedi'i leoli yn nhiriogaeth Prydain Fawr ac mae'r porthladd hwylio wedi'i leoli yn nhiriogaeth Prydain Fawr neu un o Aelod-wladwriaethau'r UE (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel **"Gweithredwyr Llongau Fferi"**)
- cwmnïau cludiant sy'n cynnig mordeithiau lle mae'r porthladd hwylio wedi'i leoli yn nhiriogaeth un o Aelod-wladwriaethau'r UE ac mae'r llong fordeithio yn galw mewn porthladd galw neu arhosfan ym Mhrydain Fawr (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel "Gweithredwyr Llongau Mordeithio').

Ystyr 'cludydd' yw person naturiol neu gyfreithiol, yn hytrach na chwmni teithio, asiant teithio neu werthwr tocynnau, sy'n cynnig cludiant drwy wasanaethau i deithwyr neu fordeithiau i'r cyhoedd.

Ystyr 'mordaith' yw gwasanaeth cludiant ar y môr neu ddyfrffordd fewndirol, a weithredir yn arbennig at ddibenion pleser neu hamdden, wedi'i ategu gan lety a chyfleusterau eraill, am fwy na dwy noson.

Mae Ci Cymorth Cydnabyddedig yn cyfeirio at gi y mae'r cludydd o'r farn resymol mai ci cymorth ydyw sy'n teithio gyda theithiwr anabl neu deithiwr ag anawsterau symudedd at ddiben darparu cymorth priodol i'r person hwnnw, yn unol â chanllawiau perthnasol gan y Llywodraeth (Yr Adran Drafnidiaeth). Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn ymdrin ag unrhyw gŵn eraill ac mae angen cymeradwyaeth ar wahân ar gludwyr sy'n dymuno eu cludo fel anifeiliaid anwes rheolaidd.

Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol yn 'Guidance for the carriage of Recognised Assistance Dogs (for example, guide or hearing dogs) when travelling by ship (Guidance Note 4)' yn: https://www.gov.uk/government/publications/draft-guidance-notes-relating-to-regulation-eu-no-1177-2010/guidance-for-the-carriage-of-recognised-assistance-dogs-eg-guide-or-hearing-dogs-when-travelling-by-ship-guidance-note-4

### Rhan 2 – Rhwymedigaethau Cyfreithiol Gweithredwyr Llongau Fferi/Mordeithio

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar Weithredwyr Llongau Fferi/Mordeithio i dderbyn pobl anabl a phobl ag anawsterau symud ar eu llongau ac ni ddylent wrthod cludiant ar sail anabledd neu ddiffyg symudedd ac eithrio am resymau y gellir eu cyfiawnhau ar sail diogelwch ac a ragnodir gan y gyfraith. Mae'r rhwymedigaeth hon hefyd yn gymwys i gludo Cŵn Cymorth Cydnabyddedig.

Mae'r rhwymedigaethau cyfreithiol wedi'u nodi'n llawn yn Rheoliad (UE) Rhif 1177/2010 a gymathwyd yn ymwneud â hawliau teithwyr wrth deithio ar y môr a dyfrffyrdd mewndirol gan ddiwygio Rheoliad (CE) Rhif 2006/2004 **('Rheoliad 1177/2010').** Mae'r prif rwymedigaethau mewn perthynas â chludo Cŵn Cymorth Cydnabyddedig fel a ganlyn:

**Erthygl 11.5 o Reoliad 1177/2010**
Pan fydd person anabl neu berson ag anawsterau symud yn teithio gyda Chi Cymorth Cydnabyddedig, dylai'r ci aros gyda'r person hwnnw, ar yr amod bod y cludydd, yr asiant teithio neu'r gweithredwr teithiau yn cael ei hysbysu yn unol â rheolau perthnasol ynghylch cludo Cŵn Cymorth Cydnabyddedig ar longau teithio, lle bo rheolau o'r fath yn bodoli.

**Erthygl 10 o Reoliad 1177/2010**
Yn ddarostyngedig i'r amodau mynediad a nodir yn Erthygl 9(1), dylai cludwyr a gweithredwyr terfynfeydd, o fewn eu priod feysydd o gymhwysedd, roi cymorth am ddim i bobl anabl a phobl ag anawsterau symud, fel y'u nodir yn Atodiadau II a III, mewn porthladdoedd, gan gynnwys byrddio a glanio, ac ar y llongau. Caiff y cymorth, lle y bo'n bosibl, ei addasu i ddiwallu anghenion unigol y person anabl neu'r person ag anawsterau symud.

Mae Atodiad II a III y cyfeirir atynt yn Erthygl 10 yn cyfeirio at y canlynol:
- Trin a thrafod Cŵn Cymorth Cydnabyddedig lle y bo'n berthnasol (Atodiad II)
- Cludo Cŵn Cymorth Cydnabyddedig ar y llong, yn ddarostyngedig i reoliadau cenedlaethol (Atodiad III).

**Gofynion o ran Anifeiliaid Anwes sy'n Teithio sy'n gymwys i Gŵn Cymorth Cydnabyddedig**

Mae Cŵn Cymorth Cydnabyddedig yn ddarostyngedig i'r amodau o ran iechyd anifeiliaid anwes a'r amodau dogfennol a nodir yn Rheoliad 576/2013 ar symud anifeiliaid anwes yn anfasnachol (a Rheoliadau cysylltiedig 577/2013 ar y dogfennau dynodi model ar symud anifeiliaid anwes yn anfasnachol, sefydlu rhestrau o diriogaethau a thrydydd gwledydd a'r gofynion o ran fformat, cynllun ac iaith y datganiadau sy'n tystio i gydymffurfiaeth ag amodau penodol y darperir ar eu cyfer yn Rheoliad 576/2013, a Rheoliad 2018/772 mewn perthynas â mesurau iechyd ataliol ar gyfer rheoli haint *Echinococcus multiocularis* ymhlith cŵn). Mae archwilwyr Anifeiliaid Anwes a Chŵn Cymorth Cydnabyddedig yn gyfrifol am wirio bod defnyddwyr Cŵn Cymorth Cydnabyddedig yn bodloni'r rheolau ar gyfer dod ag anifail anwes a chi cymorth i mewn i Brydain Fawr.

**Rhan 3 – Statws y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth**
Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn nodi'r weithdrefn gyffredin y cytunwyd arni rhwng APHA a Gweithredwyr Llongau Fferi/Mordeithio o ran sut y byddant yn hwyluso'r broses o gludo Cŵn Cymorth Cydnabyddedig ar y môr i mewn i Brydain Fawr ac yn sicrhau y caiff Cŵn Cymorth Cydnabyddedig eu cyflwyno i'r bobl briodol ar gyfer archwiliadau cyn glanio mewn porthladd ym Mhrydain Fawr.

Drwy lofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, mae'r Gweithredwr Llongau Fferi/Mordeithio yn cytuno i wneud pob ymdrech resymol i gydymffurfio â'r gweithdrefnau ysgrifenedig a nodir isod.

Bydd APHA a Gweithredwyr Llongau Fferi/Mordeithio yn adolygu'r modd y gweithredir y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth bob dwy flynedd o leiaf. Rhaid i Weithredwyr Llongau Fferi/Mordeithio hysbysu APHA am unrhyw newidiadau i longau neu lwybrau (dim ond i longau fferi y mae newid llwybr yn gymwys).

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gweithredwr Llongau Fferi/Mordeithio: | | Dyddiad adolygu (i'w gwblhau gan APHA) | |
| Dyddiad Cwblhau/Diwygio: | | | |

**Gweithdrefn y cytunwyd arni (Mae'r term 'cludydd' yn yr adran hon yn cyfeirio at Weithredwyr Llongau Fferi a Llongau Mordeithio)**

**Adran 2**

**1. Gweithdrefnau Archebu a Chofnodi**

| | |
|---|---|
| A. Mae'n ofynnol i gludwyr nodi teithwyr â chŵn cymorth cydnabyddedig drwy eu systemau gwerthu tocynnau ac archebu. Cyn derbyn archeb, dylid cynnal archwiliadau i fodloni'r cludydd bod y ci yn Gi Cymorth Cydnabyddedig.<br><br>Rhowch fanylion eich protocol cyn-archebu a nodwch sut y caiff archwiliadau eu cynnal i sicrhau eich bod yn fodlon bod y ci yn Gi Cymorth Cydnabyddedig. | |
| B. Dylid atgoffa teithwyr o'r gofynion o ran symud yn anfasnachol (anifeiliaid anwes sy'n teithio) i mewn i Brydain Fawr gyda Chi Cymorth Cydnabyddedig pan gaiff yr archeb ei gwneud. Gallai'r cludydd ddarparu rhestr wirio i'r teithiwr gadarnhau bod ganddo'r ddogfennaeth ofynnol i gydymffurfio â'r gofynion o ran symud yn anfasnachol (anifeiliaid anwes sy'n teithio).<br><br>Nodwch sut y caiff y wybodaeth hon ei rhoi. | |
| C. Nodwch sut y darperir prawf bod archwiliadau wedi'u cynnal a sut y caiff cerbydau eu marcio i ddangos bod Cŵn Cymorth Cydnabyddedig yn bresennol, os caiff cerbydau eu defnyddio. | |

## 2. Gweithdrefn Archwilio Anifeiliaid Anwes

A. Dylid archwilio dogfennaeth am gydymffurfiaeth â'r gofynion o ran anifeiliaid anwes sy'n teithio yn Rheoliad 576/2013 (a rheoliadau cysylltiedig 577/2013 a 2018/772) cyn byrddio a dylai'r ci gael ei nodi drwy ddarllen y microsglodyn ar adeg byrddio. Dim ond archwiliadau byrddio y bydd angen eu cynnal ar lwybrau llongau fferi, ond yn achos llwybrau llongau mordeithio lle bydd angen rhoi triniaeth ar gyfer llyngyr ar ôl byrddio, bydd angen cynnal archwiliadau glanio hefyd. Rhaid i lwybrau llongau mordeithio hefyd asesu cydymffurfiaeth barhaus y Ci Cymorth Cydnabyddedig â'r gofynion o ran anifeiliaid anwes sy'n teithio drwy gydol taith y ci, er enghraifft os bydd hyn yn newid mewn porthladd galw neu arhosfan cyn cyrraedd Prydain Fawr.

B. Dylai staff y cludydd gynnal archwiliadau drwy ddefnyddio rhestr wirio sy'n cynnwys yr holl wybodaeth yn y Rhestr Wirio i Anifeiliaid Anwes sy'n Teithio (PT45). Dylai'r staff sy'n gyfrifol am archwilio pob llong fod yn ymwybodol o'r gofynion gwahanol ar gyfer y gwledydd penodol yr ymwelwyd â nhw. Cyfrifoldeb y staff archwilio yw canfod gwledydd nas rhestrwyd lle mae angen seroleg i gael mynediad i Brydain Fawr a nodi a oes angen triniaeth ar gyfer llyngyr. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer llongau mordeithio oherwydd gall statws cydymffurfiaeth y Ci Cymorth Cydnabyddedig newid yn ystod y daith, yn dibynnu ar ba wledydd y mae'r Ci Cymorth Cydnabyddedig yn glanio ynddynt yn ystod y fordaith. Mae'n bosibl y bydd angen archwiliadau am driniaeth ar gyfer llyngyr ar adeg byrddio a glanio.

| | |
|---|---|
| C. Disgrifiwch sut y bydd staff yn cynnal yr archwiliadau a pha gyfarpar fydd ganddynt i wneud hynny. Rhowch fanylion am y camau a fydd yn cael eu cymryd os canfyddir bod angen triniaeth ar gyfer llyngyr ar Gi Cymorth Cydnabyddedig yn ystod yr archwiliadau. | |
| D. Disgrifiwch sut y caiff hyfforddiant ei ddarparu i'r staff sy'n cynnal yr archwiliadau hyn a nodwch sut y caiff yr hyfforddiant ei gofnodi at ddibenion archwilio. | |

## 3. Cŵn sy'n methu'r archwiliadau cyn byrddio

| | |
|---|---|
| Rhowch fanylion am sut yr ymdrinnir â Chŵn Cymorth Cydnabyddedig os byddant yn methu archwiliadau cyn byrddio y tu allan i Brydain Fawr. Dylai'r cludydd nodi p'un a wrthodir iddynt deithio neu a roddir cymorth iddynt gael Trwydded Fewnforio gan APHA o dan Orchymyn y Gynddaredd (Mewnforio Cŵn, Cathod a Mamaliaid eraill) 1974 (sydd ond ar gael yn ystod oriau swyddfa). | |

## 4. Cŵn sy'n methu'r archwiliadau wrth lanio

Rhaid i gŵn sy'n methu eu harchwiliadau wrth lanio gael eu trin fel glaniadau anghyfreithlon a rhaid i'r cludydd gysylltu ag Awdurdod Lleol y Porthladd. Cadarnhewch y weithdrefn y dylid ei dilyn.

Ni ddylid gadael i laniadau anghyfreithlon adael y llong. Rhaid i'r ci aros ar y llong hyd nes bod yr Awdurdod Lleol yn penderfynu, ar y cyd â'r perchennog, a fydd y ci yn cael ei ail-allforio (lle y bo'n bosibl) neu'n cael ei roi mewn cwarantîn hyd nes bod yr anifail yn cydymffurfio â'r gofynion o ran anifeiliaid anwes sy'n teithio.
Os bydd cyfleuster cadw dros dro ar gael yn y Porthladd, gellir rhoi'r ci yno hyd nes y caiff penderfyniad ei wneud. Rhaid defnyddio asiant cario awdurdodedig i gludo'r ci o'r llong i'r cyfleuster cadw dros dro.

## 5. Darparu gwybodaeth i APHA

A. Dylid anfon hysbysiad i APHA yn nodi bod Cŵn Cymorth Cydnabyddedig wedi cyrraedd Prydain Fawr, gan gynnwys rhestr o'r holl borthladdoedd galw ym Mhrydain Fawr ar gyfer y daith honno, drwy e-bost i'r cyfeiriad canlynol imports@apha.gov.uk (Dylid gwneud hyn cyn cyrraedd ac adeg glanio **o leiaf** er mwyn hwyluso archwiliadau sicrhau ansawdd APHA lle bo angen).

B. Caiff ffigurau llif misol eu darparu i APHA (gan gynnwys ffurflenni dim cofnod) a'u hanfon i: PetTravelSchemeDataRecord@apha.gov.uk

C. Darperir ffurflenni diffyg cydymffurfio i APHA. Cwblhewch Anifeiliaid Anwes sy'n Teithio: Ffurflen Diffyg Cydymffurfio ar gyfer Cŵn, Cathod a Ffuredau (PETS08). Rhaid i'r ffurflen hon gael ei hanfon i: PetTravelSchemeDataRecord@apha.gov.uk. Disgrifiwch hefyd sut y caiff y wybodaeth hon ei rhoi i'r perchennog.
Ar gyfer achosion difrifol o ddiffyg cydymffurfio, rhaid cwblhau Adroddiad am Ddiffyg Cydymffurfio Difrifol yn Ymwneud â Gwaith Papur neu Amheuaeth o Dwyll (IV62) a'i anfon i: PetTravelSchemeDataRecord@apha.gov.uk a'r Awdurdod Lleol.

D. Rhaid i gofnodion o archwiliadau fod ar gael a rhaid iddynt gael eu darparu i APHA ar gais. Disgrifiwch sut y caiff y cofnodion eu cadw. Argymhellir y dylid cadw cofnodion o archwiliadau am 12 mis o leiaf.

## 6. Lles wrth Gludo

Rhaid i Gŵn Cymorth Cydnabyddedig gael eu cludo mewn ffordd nad yw'n cael effaith andwyol ar les yr anifail.

Caiff anifeiliaid eu diogelu rhag anaf neu ddioddefaint diangen wrth gael eu cludo gan ddarpariaeth dyletswydd gofal gyffredinol yn Erthygl 4 o Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Lloegr) 2006 a deddfwriaeth genedlaethol gyfatebol yng Nghymru a'r Alban. Mae Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Lloegr) 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i anifeiliaid, gan gynnwys cŵn, gael eu cludo mewn cynwysyddion neu ddulliau cludo o dan amodau (yn arbennig o ran gofod, awyru, tymheredd a diogelwch) ac â'r cyfryw gyflenwad o hylif ac ocsigen, ag sy'n briodol ar gyfer y rhywogaeth dan sylw.

**Adran 3**

Cadarnhewch enwau unrhyw longau (llongau mordeithio a fferi) a nodwch y llwybr (dim ond ar gyfer Gweithredwyr Llongau Fferi y mae hyn yn ofynnol) y bydd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn ymdrin ag ef:

| |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |

Rhaid cyflwyno Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd i APHA (Y Ganolfan Fasnach Ryngwladol) os bydd angen gwneud unrhyw newidiadau i'r ddogfen.

Rhaid i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn gael ei adolygu a'i ailgyflwyno i APHA bob 2 flynedd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod ar ran y Gweithredwr Llongau Fferi/Mordeithio: | | Dyddiad: | |
| Enw mewn | | Statws/Swydd: | |
| Cyfeiriad: | | Cyfeiriad e-bost: | |

**Rwyf wedi trafod y gofynion o ran anifeiliaid anwes sy'n teithio gyda'r gweithredwr ac rwy'n fodlon ei fod yn deall yr hyn sy'n ofynnol ganddo. Mae ganddynt y cyfleusterau i gyflawni'r hyn a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ac rwyf wedi darparu hyfforddiant yn unol â'r gofynion ac wedi cael sicrwydd y bydd yr hyfforddiant hwn yn cael ei rannu â'r holl staff priodol er mwyn cynnal yr archwiliadau hyn yn unol â'r gofynion.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llofnod: | | Swyddfa APHA: | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw mewn | | Dyddiad: | |
| | Milfeddyg Arweiniol APHA | | |

Rhaid i'r ffurflen hon gael ei chyflwyno i CITC – Imports@apha.gov.uk

Animal and Plant Health Agency
Centre for International Trade Carlisle
Import Team
Eden Bridge House
Lowther Street
Carlisle
CA3 8DX

Ffôn: 03000 200 301

**At ddefnydd y Tîm Mewnforio yn unig**

| | |
|---|---|
| Llofnod | |
| Enw mewn PRIFLYTH-RENNAU | |
| Dyddiad | |

**DIOGELU DATA**
I gael gwybodaeth am y ffordd rydym yn trin data personol ewch i www.gov.uk a chwiliwch am Siarter Gwybodaeth Bersonol yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (Animal and Plant Health Agency Personal Information Charter).

Mae APHA yn un o Asiantaethau Gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac mae hefyd yn gweithio ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i ddiogelu iechyd anifeiliaid a phlanhigion er budd pobl, yr amgylchedd a'r economi.